11-Jun-07

canolfanbydgwaith

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Nodiadau ynglŷn â gwneud cais am fudd-dal ar gyfer afiechydon diwydiannol penodol

- **Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?**
- **Beth yw afiechyd diwydiannol penodol?**
- **Ydw i'n gymwys i gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?**
- **Pryd i wneud cais**
- **Ynglŷn â'ch cais am fudd-dal ar gyfer afiechyd diwydiannol penodol**
- **Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni gael eich cais?**
- **Arian arall y gallech ei gael**
- **Beth os achoswyd yr afiechyd penodol gan waith cyn 5 Gorffennaf 1948?**
- **Beth os achoswyd yr afiechyd penodol gan waith y tu allan i'r DU neu beth os ydych yn byw y tu allan i'r DU?**
- **Ble i gael help a chyngor am afiechydon diwydiannol penodol**
- **Help i gwblhau'r ffurflen**
- **Cyfeiriadau'r swyddfeydd budd-dal anabledd rhanbarthol**

Beth yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Taliad yw Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol i bobl sy'n sâl neu'n anabl o ganlyniad i ddamwain, afiechyd neu ddigwyddiad yn y gwaith, neu mewn cysylltiad â'r gwaith.

Os hoffech wneud cais am fudd-dal ar gyfer damwain ddiwydiannol, bydd angen i chi gwblhau ffurflen **BI100AW** *Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer damwain yn y gwaith*. Gallwch gael y ffurflen gan eich swyddfa budd-dal anabledd ranbarthol. Gallwch ddod o hyd i restr o swyddfeydd ar **dudalennau 11** a **12** o'r nodiadau hyn.

Beth yw afiechyd diwydiannol penodol?

Mae'r gyfraith yn rhestru dros 70 o afiechydon y gallant gael eu hachosi drwy weithio mewn rhai swyddi penodol neu drwy ddefnyddio offer penodol. Gelwir yr afiechydon hyn yn *afiechydon penodol*.

Gallwch ddod o hyd i restr o'r afiechydon penodol a'r swyddi y gallwch wneud cais mewn perthynas â hwy o dan y cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol o'n gwefan yn **www.dwp.gov.uk/advisers/db1/appendix/appendix1.asp**

Neu, gallwch gael y rhestr **BI100PD list** o'ch swyddfa budd-dal anabledd rhanbarthol.

Ydw i'n gymwys i gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol?

Gallai fod hawl gennych i gael y budd-dal hwn os ydych yn anabl oherwydd afiechyd a achoswyd gan eich gwaith.

Nid ydych yn gymwys i gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oeddech yn hunangyflogedig pan gawsoch yr afiechyd.

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os nad yw'r afiechyd yn ymddangos ar y rhestr o afiechydon penodol, neu os nad yw eich swydd wedi'i rhestru yn erbyn yr afiechyd.

Mae rheolau arbennig sy'n berthnasol i rai afiechydon penodol.

Os nad ydych yn siwr a allwch wneud cais neu beidio, cysylltwch â'ch swyddfa budd-dal anabledd rhanbarthol.

Ydw i'n gymwys i gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol? parhad

Mae cyfyngiadau amser ar 3 afiechyd penodol hefyd.

A10 – byddardod galwedigaethol

Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio am o leiaf 10 mlynedd yn o leiaf un o'r swyddi a restrir y gwyddys eu bod yn achosi byddardod. Mae'n rhaid i'r gwaith hwnnw fod o fewn 5 mlynedd i ddyddiad eich cais. Efallai y gallech hefyd gael budd-dal os gwnaethoch weithio'n agos iawn i rywun arall a oedd yn gwneud swydd a restrir y gwyddys ei bod yn achosi byddardod.

D7 – asthma galwedigaethol

Mae'n rhaid eich bod wedi bod mewn cysylltiad, yn y gwaith, â sylwedd a restrir a achosodd eich asthma rywbryd yn y 10 mlynedd cyn dyddiad eich cais.

D12 – broncitis cronig neu emffysema neu'r ddau

Mae'n rhaid eich bod wedi gweithio dan ddaear mewn pwll glo am gyfnod neu gyfnodau sy'n gyfystyr ag o leiaf 20 mlynedd. Gall hyn gynnwys gweithio i fwy nag un cyflogwr. Nid oes rhaid i'r 20 mlynedd fod yn un cyfnod di-dor. Fel arfer gellir anwybyddu seibiannau byr mewn cyflogaeth o lai na 3 mis.

O 21 Gorffennaf 2008 gallech hefyd gael budd-dal os ydych wedi gweithio ar wyneb pwll glo fel sgrin weithiwr. Ond mae'n rhaid eich bod wedi gweithio yno cyn 1983.

Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r anabledd. Fel arfer, bydd angen i chi gael archwiliad meddygol. Efallai bydd angen i chi gymryd prawf anadl neu brawf clyw ac efallai y bydd angen i chi gael pelydr-x. Fodd bynnag, ni fyddwn yn eich anfon i gael pelydr-x

- os ydych wedi cael pelydr-x o fewn cyfnod penodol o amser, ac
- os gall yr archwilydd meddygol gael gopi ohono.

Bydd y meddyg a fydd yn rhoi archwiliad i chi yn dweud wrthym pa mor ddifrifol yw eich anabledd a pha mor hir maent yn disgwyl i'r anabledd bara.

Dim ond os dechreuodd eich anabledd oherwydd gwaith a wnaethoch i gyflogwr ar neu ar ôl 5 Gorffennaf 1948 y gallwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.

Pryd i wneud cais

Os byddwch yn dod yn anabl o ganlyniad i afiechyd penodol, dylech wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol cyn gynted â phosibl. Ond, fel arfer, ni fyddwch yn gymwys i gael budd-dal am 90 diwrnod ar ôl y dyddiad y dechreuodd yr afiechyd. Os byddwch yn oedi, gallech golli rhywfaint o fudd-dal.

Llofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall

Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y dylai'r ffurflen gais gael ei llofnodi gan rywun arall:

- nid yw'r person sy'n gwneud y cais yn abl yn feddyliol i weithredu ar ei ran ei hun, **ac**
- mae rhywun yn fodlon gweithredu ar ei ran mewn perthynas â phob mater nawdd cymdeithasol, yn cynnwys rhoi gwybod i ni am unrhyw newid yn ei amgylchiadau a chasglu arian ar ei gyfer.

Gelwir rhywun y mae'r Adran yn cytuno y gallant weithredu ar ran rhywun yn benodai.

Ni fydd angen i rywun weithredu ar ran person sy'n anabl yn gorfforol ond yn abl yn feddyliol fel arfer.

Os bydd rhywun yn gwneud cais i weithredu ar ran rhywun arall byddwn

- yn trefnu ymweld â'r canlynol
  – y person sy'n gwneud y cais, ac
  – y person sy'n gwneud cais i weithredu ar eu rhan, **ac**
- yn penderfynu pa un a oes angen i rywun weithredu ar ran y person, **ac**
- yn esbonio cyfrifoldebau'r person hwnnw.

Ni thelir unrhyw fudd-dal hyd nes y bydd y broses hon wedi'i chwblhau.

Os bydd gan rywun bŵer atwrnai neu awdurdod cyfreithiol i weithredu ar ran y person sy'n gwneud y cais, yna mae'n rhaid i'r person sydd â'r pŵer atwrnai neu awdurdod cyfreithiol

- llofnodi'r ffurflen gais, **ac**
- anfon copi o'r awdurdod cyfreithiol atom gyda'r ffurflen gais.

Mae'n rhaid i'r copi gael ei ardystio a'i lofnodi gan gyfreithiwr fel copi gwir.

Ynglŷn â'ch cais am fudd-dal ar gyfer afiechyd diwydiannol penodol

Gwneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

I wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol bydd angen i chi ateb bob cwestiwn ar y ffurflen **BI100PDW** a llofnodi'r ffurflen yn **Rhan 9**.

Gellir talu unrhyw fudd-dal a gewch oherwydd y cais hwn yn gyflymach os byddwch yn ateb pob un o'r cwestiynau ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes un gennych.

Ystyr *partner* yw

- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- partner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni, ond gallai'r budd-dal y gallech ei gael oherwydd y cais hwn fod yn destun oedi.

Os ydych yn gwneud cais am fudd-dal ar gyfer afiechyd penodol

- **A10 – byddardod galwedigaethol**, cwblhewch y ffurflen atodedig **BI100-ODW** hefyd.
- **D4 – rhinitis alergaidd**, neu **D7** – **asthma galwedigaethol**, cwblhewch y ffurflen atodedig **BI100-OAEW** hefyd.

Anfonwch y ffurflenni hyn yn ôl atom yn syth. Os byddwch yn oedi, gallech golli arian.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni gael eich cais am fudd-dal

Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud ein bod wedi derbyn eich cais.

Bydd swyddog penderfyniadau yn edrych ar eich cais. Mae *swyddogion penderfyniadau* yn pernderfynu pa un a oes gennych hawl i gael budd-dal ai peidio yn ôl y gyfraith. Byddant hefyd yn penderfynu faint o fudd-dal y mae gennych hawl iddo yn ôl y gyfraith.

Er mwyn helpu'r swyddog penderfyniadau i benderfynu ar eich cais, efallai y bydd angen i ni gael mwy o wybodaeth. Efallai y bydd angen i ni ofyn i bobl ynglŷn â'ch cais. Er enghraifft, efallai y byddwn yn ysgrifennu at unrhyw gyflogwr, meddyg neu ysbyty y soniwyd amdanynt gennych yn y ffurflen cais.

Os bydd y swyddog penderfyniadau yn penderfynu eich bod wedi gweithio mewn swydd y mae'n debygol ei bod wedi achosi eich afiechyd, efallai y byddwn yn gofyn i chi gael archwiliad meddygol. Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych ble a phryd i gael yr archwiliad. Os nad ydych yn iach i deithio neu os ydych yn yr ysbyty, byddwn yn gofyn i'r meddyg ddod i'ch gweld chi.

Rhowch wybod i ni am unrhyw ddyddiadau neu amseroedd pan na allwch fynychu archwiliad meddygol yn y 6 mis nesaf. Er enghraifft, gwyliau ac apwyntiadau ysbyty.

Os ydych yn gymwys i gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi

- faint o arian y gallech ei gael
- rhagor o wybodaeth am y budd-dal.

Os na allwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi'r rheswm dros hynny a beth i'w wneud os byddwch yn anghytuno.

Arian arall y gallech ei gael

Lwfans Enillion Is

Os na allwch wneud eich swydd arferol neu unrhyw waith arall gyda thâl tebyg oherwydd afiechyd a achoswyd gan waith a dechreuodd eich salwch neu'ch anabledd cyn 1 Hydref 1990, efallai y gallech wneud cais am Lwfans Enillion Is.

Lwfans Gweini Cyson

Os ydych yn cael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar y gyfradd 100% a bod angen gofal a sylw dyddiol arnoch, efallai y gallech gael Lwfans Gweini Cyson. Telir Lwfans Gweini Cyson ar bedair cyfradd wahanol. Cewch eich ystyried ar gyfer Lwfans Gweini Cyson yn awtomatig. Nid oes angen i chi wneud cais ar wahân.

Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol

Os cewch Lwfans Gweini Cyson ar un o'r ddwy gyfradd uwch a bod angen gofal a sylw cyson parhaol arnoch, gallech hefyd gael Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol.

Cynllun Anafiadau Diwydiannol Cyfatebol

Os ydych yn weithiwr dan hyfforddiant a'ch bod yn cael damwain neu afiechyd yn ystod rhaglen hyfforddi yn seiliedig ar waith, ni allwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Fodd bynnag, efallai y gallech gael help o dan y Cynllun Anafiadau Diwydiannol Cyfatebol. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Analogous Industrial Injuries Scheme
Jobcentre Plus
Castleford IIDB Centre
Leodis Way
Leeds
LS88 8AQ.

Ffôn: **01977 464094**.

Arian arall y gallech ei gael parhad

Taliad ychwanegol ar gyfer pobl y mae eu cyflogwr wedi rhoi'r gorau i fasnachu

Gall pobl sy'n dioddef o rai afiechydon diwydiannol a achosir gan fathau penodol o lwch gael help o dan Ddeddf Clefyd y Llwch ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979. Gallwch wneud cais os na allwch gael iawndal gan y cyflogwyr a achosodd yr afiechyd neu a gyfrannodd ato.

Yr afiechydon y gallwch wneud cais mewn perthynas â hwy

- mesothelioma ymledol
- clefyd y llwch (yn cynnwys asbestosis, silicosis a kaolinosis)
- tewychu pliwraidd ymledol
- carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint lle ceir asbestosis neu dewychu pliwraidd ymledol hefyd
- byssinosis

Os yw person

- wedi dioddef o un o'r afiechydon hyn, **ac**
- wedi marw,

gall eu dibynyddion gwneud cais.

Os credwch fod gennych hawl i gael taliad, cysylltwch â'r adran Iawndal Gweithwyr Clefyd y Llwch (Pneumoconiosis Workers' Compensation) yn:

Jobcentre Plus
Castleford IIDB Centre
Leodis Way
Leeds
LS88 8AQ.
Ffôn: 01977 464094

Rhadffon **0800 279 2322**

Peidiwch ag aros i weld beth fydd canlyniad eich cais o dan y cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol cyn i chi wneud cais am y taliad ychwanegol hwn.
Os byddwch yn aros mwy na 12 mis i hawlio'r taliad ychwanegol, efallai na allwn eich talu.

Beth os achoswyd y damwain gan waith cyn 5 Gorffennaf 1948?

Os achoswyd eich afiechyd gan waith cyn 5 Gorffennaf 1948, cysylltwch â

Pneumoconiosis and Workmen's Compensation Section
Jobcentre Plus
Barrow IIDB Centre
Pittman Way
Preston
PR11 2AB

Rhadffon **0800 279 2322.**

Beth os digwyddodd yr afiechyd y tu allan i'r DU neu rydych yn byw y tu allan i'r DU?

Os achoswyd eich afiechyd gan waith y tu allan i'r DU, neu rydych yn byw y tu allan i'r DU, cysylltwch â'r Ganolfan Bensiwn Ryngwladol i gael cyngor

International Pension Centre 3
Industrial Injuries
Room TC001
Tyneview Park
Newcastle upon Tyne
NE98 1BA
Ffôn **0191 21 87650**

Ble i gael help a chyngor am afiechydon diwydiannol penodol

Os hoffech gael gwybodaeth gyffredinol am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, cysylltwch â'ch swyddfa budd-dal anabledd ranbarthol. Gallwch ddod o hyd i restr o swyddfeydd ar **dudalennau 11** a **12** o'r nodiadau hyn.

Neu gallwch ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau i bobl ag anableddau. Y rhif ffôn yw **0800 88 22 00**. Gallwch hefyd gysylltu â chanolfan gynghori fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **01977 464144.** Os nad oes gennych eich system ffôn testun eich hun, efallai y gallwch ddod o hyd i un yn eich llyfrgell leol neu ganolfan Cyngor ar Bopeth.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr gallwch gael cyngor di-dâl, annibynnol a chyfrinachol am Fudd-dal Anallu ogrwydd a budd-daliadau eraill. Ffoniwch y Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4 345**. Gallwch ymweld â'u gwefan yn **www.communitylegaladvice.org.uk/cy/**

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau a gwasanaethau ymwelwch â'n gwefan yn **www.dwp.gov.uk/welsh**

Help i gwblhau'r ffurflen

Os hoffech gael help i gwblhau'r ffurflen gais neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**. Bydd y person y byddwch yn siarad â hwy yn trefnu i rywun eich ffonio'n ôl. Mae'r person fydd yn eich ffonio yn ôl wedi cael ei hyfforddi'n arbennig i'ch helpu i gwblhau'r ffurflenni hyn. Bydd ganddynt gopi o'r ffurflen gais a byddant yn mynd drwyddi gyda chi dros y ffôn. Neu gallant gwblhau ffurflen gais ar eich rhan.

Os byddant yn cwblhau'r ffurflen gais ar eich rhan, byddant yn ei hanfon atoch. Yna gallwch fwrw golwg drosti, ei llofnodi a'i dychwelyd i'ch swyddfa budd-dal anabledd ranbarthol. Gallant anfon ffurflen gais wedi'i chwblhau mewn braille neu brint bras atoch.

Cyfeiriadau'r Canolfannau Trafod Budd-dal Anafiadau Diwydiannol (IIBDC)

Ymdrinnir â Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol mewn 6 swyddfa rhanbarthol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y budd-dal, cysylltwch â'r swyddfa sydd agosaf at ble rydych yn byw.

Rhanbarth	Enw'r swyddfa	Rhif ffôn
Dwyrain Canolbarth Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr	Jobcentre Plus Sutton-in-Ashfield IIDB Centre Padge Road Nottingham NG80 8AX	0845 608 8779
Gogledd Ddwyrain Lloegr	Jobcentre Plus Hartlepool IIDB Centre Hartlepool Jobcentre Earlsway Gateshead NE92 1AP	0845 600 1587
Gogledd Orllewin Lloegr a Dwyrain Lloegr	Jobcentre Plus Barrow IIDB Centre Pittman Way Preston PR11 2AB	0845 603 1358
Yr Alban	Jobcentre Plus Ayr IIDB Centre Ayr Jobcentre Baird Street Glasgow G90 8AB	0845 608 8967

Parhau ar y dudalen nesaf ▶

Cyfeiriadau'r Canolfannau Trafod Budd-dal Anafiadau Diwydiannol (IIBDC) parhad

Rhanbarth	Enw'r swyddfa	Rhif ffôn
De Ddwyrain Lloegr a Llundain	Jobcentre Plus Broadstairs IIDB Centre Sandling Road Maidstone Kent ME99 2AB	0845 608 8913
Swydd Efrog a'r Humber, De Orllewin Lloegr a Chymru	Jobcentre Plus Castleford IIDB Centre Leodis Way Leeds LS88 8AQ	0845 758 5433

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer afiechyd diwydiannol penodol

canolfanbydgwaith

Mae'r ffurflen hon ar gyfer gwneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer afiechyd penodol

- **Dylech ddarllen y nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn cyn i chi lenwi'r ffurflen hon.**
- **Atebwch bob cwestiwn sydd yn briodol i chi a'ch partner.**

Os ydych angen cymorth i lenwi unrhyw ran o'r ffurflen hon, ffoniwch eich swyddfa budd-dal anabledd rhanbarthol. Gallwch ddod o hyd i'w rhif yn y **BI100PDW Notes** rydym wedi ei anfon gyda'r ffurflen hon.

Sut rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Mae'r wybodaeth rydym yn ei chasglu amdanoch a sut rydym yn ei defnyddio yn dibynnu'n bennaf ar y rheswm dros eich busnes gyda ni. Ond fe allwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw ddibenion yr Adran, sy'n cynnwys

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynnal plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- polisi pensiynau preifat, a
- cynllunio ar gyfer ymddeol.

Efallai y byddwn yn cael gwybodaeth gan eraill er mwyn gwirio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni ac i wella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth i rai sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft er mwyn amddiffyn yn erbyn troseddau.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â'n gwefan **www.dwp.gov.uk/welsh/privacy.asp** neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Rhan 1 Ynglŷn â chi

Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun

Cyfenw neu enw teuluol | Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Pob enw arall – yn llawn

Pob cyfenw neu enw teuluol arall rydych wedi cael eich adnabod wrthynt neu rydych yn eu defnyddio nawr. Dylech gynnwys eich enw cyn priodi, pob enw priod blaenorol a phob newid i enw'r teulu.

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn gartref | Cod Rhif

Rhif ffôn yn ystod y dydd, os yn wahanol | Cod Rhif

Rhif ffôn symudol | Rhif

Dyddiad geni | / /

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)
Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau oddi wrth yr adran nawdd cymdeithasol neu slipiau cyflog.

Llythrennau Rhifau Llythyren

Os nad ydych yn gwybod beth yw eich rhif Yswiriant Gwladol, a fu un gennych neu a ydych wedi defnyddio un erioed?

Na ☐

Do ☐

Dywedwch wrthym am unrhyw fanylion personol eraill y credwch y bydd angen i ni eu gwybod yn **Rhan 8 Gwybodaeth arall**.
Er enghraifft, enwau eraill neu unrhyw gyfeiriadau eraill rydych wedi byw ynddynt yn ystod y 3 blynedd diwethaf.

Rhan 2 Llenwi'r ffurflen a'i llofnodi ar ran rhywun arall

Darllenwch dudalen 4 o'r BI100PDW Notes.
Ni ddylech lenwi'r adran hon oni bai eich bod wedi llenwi'r ffurflen ar ran yr ymgeisydd oherwydd nad oedd yn gallu ei llenwi ei hun.

Dywedwch wrthym pam nad yw'r ymgeisydd yn gallu llenwi'r ffurflen.

Ticiwch y blychau perthnasol.

Nid yw'r ymgeisydd yn gallu llenwi'r ffurflen oherwydd bod ei salwch neu ei (h)anabledd yn ei gwneud yn amhosibl iddo/iddi wneud hynny. ☐

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi fy mhenodi i gael budd-daliadau'r ymgeisydd ac i ymdrin â materion nawdd cymdeithasol ar ran yr ymgeisydd. ☐

Nid yw'r ymgeisydd yn gallu rheoli ei faterion/ei materion ei hun oherwydd salwch meddwl neu anabledd meddwl. ☐

Unrhyw reswm arall – esboniwch

Dywedwch wrthym amdanoch eich hun

Eich cyfenw neu'ch enw teuluol Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Pob enw arall sydd gennych – yn llawn

Beth yw eich perthynas i'r cwsmer?

Eich cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn gartref Cod Rhif

Rhif ffôn yn ystod y dydd, os yn wahanol Cod Rhif

Rhif ffôn symudol Rhif

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)
Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol YG, ar lythyrau oddi wrth swyddfa nawdd cymdeithasol neu ar slipiau cyflog.

Llythrennau ☐☐ Rhifau ☐☐ ☐☐ ☐☐ Llythyren ☐

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 3 Ynglŷn â'ch gwaith a'ch afiechyd

- Dywedwch wrthym pa afiechyd y credwch sydd gennych a dywedwch fwy wrthym am y swydd roeddech yn ei gwneud y credwch iddi achosi eich afiechyd. Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch.
- Gweler y rhestr o afiechydon a swyddi rydych yn gallu gwneud cais mewn perthynas â hwy o dan y cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Gallwch gael y rhestr o'n gwefan yn **www.dwp.gov.uk/advisers/db1/appendix/appendix1.asp**
- Os nad ydych yn siwr pa afiechyd y dylech wneud cais mewn perthynas ag ef, gofynnwch i'ch swyddfa budd-dal anabledd rhanbarthol i'ch helpu. Gallwch ddod o hyd i'r rhestr o swyddfeydd yn y **BI100PDW Notes** a anfonwyd atoch gyda'r ffurflen hon.

Pa afiechyd sydd gennych?

Dywedwch beth yw rhif yr afiechyd penodol, os ydych yn ei wybod. Gallwch ddod o hyd i restr o rifau afiechydon penodol ar ein gwefan neu ar y **BI100PD list**.

Ar ba ddyddiad y credwch eich bod wedi dechrau dioddef o'r afiechyd?
Os nad ydych yn siwr o'r dyddiad, rhowch amcangyfrif o'r dyddiad.

/ /

Pa fath o waith y credwch iddo achosi eich afiechyd?
Dywedwch wrthym am unrhyw offer a ddefnyddiwyd, cemegau rydych wedi bod mewn cysylltiad â hwy, llwch neu fygdarth efallai eich bod wedi ei anadlu.

Os ydych yn gwneud cais am

- **fyddardod galwedigaethol** dylech hefyd cwblhau y ffurflen **BI100-ODW** a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn
- **rhinitis alergaidd** neu **asthma galwedigaethol** dylech hefyd cwblhau y ffurflen **BI100-OAEW** a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn

Ym mha ffordd mae'r afiechyd wedi effeithio arnoch?

Rhan 3 Ynglŷn â'ch gwaith a'ch afiechyd parhad

Dywedwch wrthym am bob cyflogwr rydych wedi gwneud y math yma o waith iddynt.
Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy na 2 gyflogwr, dywedwch wrthym amdanynt yn **Rhan 8 Gwybodaeth arall**.

	Cyflogwr 1	Cyflogwr 2
Enw a chyfeiriad eich cyflogwr lle yr oeddech yn gwneud y gwaith	Cod Post	Cod Post
Rhif ffôn y cyflogwr, os gwyddoch ef	Cod Rhif	Cod Rhif
Gweithle		
Eich swydd		
Rhif cyflogres, staff neu rif cyfeirnod arall		
Ar ba ddyddiad y gweithioch yno ddiwethaf? Os ydych yn ansicr o'r union ddyddiad, rhowch amcangyfrif.	O / / I / /	O / / I / /
Ym mha faes busnes neu ddiwydiant mae'r cwmni ynddo?		
Ydy'r cyflogwr yn parhau mewn busnes?	**Na** ☐ **Ydy** ☐	**Na** ☐ **Ydy** ☐

Efallai y byddwn yn gofyn i chi gael archwiliad meddygol gan feddyg neu arbenigwr.
Os oes gennych unrhyw broblemau o ran cael archwiliad meddygol, dywedwch wrthym amdanynt.
Hefyd rhowch unrhyw ddyddiadau ac amseroedd pan na fyddwch yn gallu mynychu archwiliad meddygol yn y 6 mis nesaf o bosibl.

Oes gennych adroddiad meddygol ynglŷn â'ch cyflwr? **Na** ☐
Er enghraifft, adroddiad gan arbenigwr rydych wedi gweld eisoes.
Oes ☐ **Anfonwch gopi o'r adroddiad meddygol gyda'r ffurflen hon.**

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 4 Ynglŷn â thriniaeth feddygol

Rhowch enw a chyfeiriad eich meddyg teulu

Cod post

Rhif ffôn eich meddyg teulu, os yw'n hysbys

Cod Rhif

A fuoch i ysbyty neu glinig am driniaeth o ganlyniad i'r afiechyd?

Na ☐ Ewch i'r cwestiwn olaf ar y dudalen hon ynglŷn â Mesothelioma Ymledol.

Do ☐ Dywedwch wrthym am yr ysbyty neu glinig y buoch iddynt oherwydd yr **afiechyd**. Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy na un ysbyty neu glinig, defnyddiwch y gofod yn **Rhan 8 Gwybodaeth aral**l.

Enw a chyfeiriad yr ysbyty neu'r clinig

Cod post

Adran neu ward

Rhif cyfeirnod neu rif derbyn

Enw'r arbenigwr os gwyddoch ef

Dyddiadau'r driniaeth

O / / I / /

O / / I / /

A gawsoch belydr x?

Na ☐

Do ☐

Ydych chi'n gwneud cais mewn perthynas â Mesothelioma Ymledol?
Afiechyd Penodol **D3** yw hwn ar ein rhestr o swyddi ac afiechydon.

Na ☐

Do ☐ **Anfonwch unrhyw dystiolaeth feddygol sydd gennych.** Mae hyn er mwyn i ni benderfynu ar eich cais yn gyflym.

Rhan 5 Ynglŷn â cheisiadau cynharach am Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Ydych chi wedi gwneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol o'r blaen?

Na ☐ Ewch i **Rhan 6**.

Ydw ☐ Dywedwch wrthym am y ceisiadau hyn isod.

	Cais 1	**Cais 2**
A wnaethoch gais mewn perthynas ag afiechyd diwydiannol?	**Na** ☐ **Do** ☐ Beth yw enw'r afiechyd?	**Na** ☐ **Do** ☐ Beth yw enw'r afiechyd?
A wnaethoch chi gais mewn perthynas â damwain ddiwydiannol?	**Na** ☐ **Do** ☐ Beth yw dyddiad y ddamwain? / /	**Na** ☐ **Do** ☐ Beth yw dyddiad y ddamwain? / /
Pryd gwnaethoch gais? Os ydych yn ansicr, rhowch amcangyfrif.	/ /	/ /
Os oeddech yn byw mewn cyfeiriad gwahanol pan wnaethoch gais, **nodwch y cyfeiriad**. Dywedwch wrthym hyd yn oed os oeddech yn byw dramor. Os oes angen i chi ddweud wrthym am fwy nag 1 cyfeiriad, neu fwy na 2 gais, dywedwch wrthym amdanynt yn **Rhan 8 Gwybodaeth arall**.	Cod post	Cod post

Rhan 6 Ynglŷn â budd-daliadau a hawliadau eraill

Ydych chi, neu'ch partner os oes gennych un, yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau, lwfansau neu bensiynau a restrir isod?
Ticiwch **Ydw** os ydych chi neu'ch partner wedi gwneud cais am un o'r rhain ac yn aros i glywed amdano.

Na ☐

Ydw ☐ Ticiwch y blychau sy'n briodol i chi neu'ch partner.
Ystyr *partner* yw'r
- person rydych yn briod â hwy, neu'r person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- partner sifil neu person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

	Chi	**Eich partner**
Cymhorthdal Incwm	☐	☐
Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm	☐	☐
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm	☐	☐
Credyd Pensiwn	☐	☐
Unrhyw fudd-dal, lwfans neu bensiwn arall y wladwriaeth	☐	☐

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 6 Ynglŷn â budd-daliadau a hawliadau eraill parhad

Ydych chi'n cael neu'n gwneud cais am

Pensiwn Anabledd Rhyfel? ☐ Natur yr anaf neu afiechyd ☐ Canran yr anabledd ☐ %

Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog? ☐ Natur yr anaf neu afiechyd ☐ Maint yr anabledd ☐

Os ydych wedi ticio unrhyw un o'r blychau yn Rhan 6, dywedwch wrthym am y budd-daliadau, lwfansau neu bensiynau isod.

	Chi	**Eich partner**
Enw'r budd-dal, lwfans neu bensiwn		
Rhif cyfeirnod, os yw'n hysbys		
Dyddiad y cais neu hawliad	/ /	/ /
Cyfeiriad y swyddfa sy'n delio â'ch hawliad neu'ch cais	Cod post	Cod post
Enw'r budd-dal, lwfans neu bensiwn		
Rhif cyfeirnod, os yw'n hysbys		
Dyddiad y cais neu hawliad	/ /	/ /
Cyfeiriad y swyddfa sy'n delio â'ch hawliad neu'ch cais	Cod post	Cod post

Os ydych wedi dweud wrthym am fudd-dal, lwfans neu bensiwn mae'ch partner yn ei gael, dywedwch wrthym am eich partner.

Eu cyfenw neu enw teuluol Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Eu henwau eraill

Eu rhif Yswiriant gwladol (YG), os ydych yn ei wybod Llythrennau ☐☐ Rhifau ☐☐☐☐ Llythyren ☐

Dyddiad geni / /

Rhan 7 Sut rydym yn eich talu

Gallwn dalu eich Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol bob 4 wythnos, bob 13 wythnos neu bob wythnos.

Pa mor aml rydych am i ni dalu eich budd-dal

- Bob 4 wythnos ☐
- Bob 13 wythnos ☐
- Bob wythnos ☐

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'ch Canolfan Trafod Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol. Gallwch ddod o hyd i restr o swyddfeydd yn **BI100PDW Notes** a anfonwyd gyda'r ffurflen hon.

Fel arfer byddwn yn talu eich arian i mewn i gyfrif.
Bydd nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn eich caniatáu i gasglu eich arian mewn swyddfeydd post.

Byddwn yn dweud wrthych pan fyddwn yn gwneud y taliad cyntaf a faint ydyw. Byddwn yn dweud wrthych os bydd newid yn y swm y byddwn yn ei dalu i mewn i'r cyfrif.

Cael gwybod faint rydym wedi'i dalu i mewn i'r cyfrif
Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni cyfrif. Efallai bydd y cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi eu gwneud. Os credwch fod taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi
Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a dalwyd nad oes gennych hawl i'w gael. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system ar gyfer taliadau i mewn i gyfrif yn gweithredu.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni, sy'n golygu bod hawl gennych i gael llai o arian. Weithiau ni allwn newid y swm rydym wedi'i dalu i chi eisoes. Golyga hyn y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl i'w gael.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.

Beth i'w wneud nawr

- Dywedwch wrthym am y cyfrif yr ydych yn dymuno ei ddefnyddio ar y dudalen nesaf. Drwy roi manylion eich cyfrif i ni rydych:
  - yn cytuno y byddwn yn talu i mewn i'ch cyfrif, ac
  - yn deall yr hyn rydym wedi ei ddweud wrthych uchod yn yr adran **Os byddwn yn talu gormod o arian i chi**.
- Os ydych yn bwriadu agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted â'u bod gennych.
- Os nad oes gennych gyfrif, cysylltwch â ni a byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Cwblhewch gweddill y ffurflen hon. Nid oes rhaid i chi aros nes eich bod wedi agor cyfrif neu gysylltu â ni.

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Rhan 7 **Sut rydym yn eich talu** parhad

Ynglŷn â'r cyfrif rydych am ei ddefnyddio

- Gallwch ddefnyddio **cyfrif yn eich enw ch**i neu **gyfrif ar y cyd**.
- Gallwch ddefnyddio **cyfrif rhywun arall** os:
  - bydd termau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn, a
  - byddant yn eich caniatáu i ddefnyddio eu cyfrif, a
  - rydych yn sicr y byddant yn defnyddio eich arian yn y ffordd rydych yn ei ddweud wrthynt.
- Gallwch ddefnyddio **cyfrif undeb credyd**. Mae'n rhaid i chi ddarparu manylion cyfrif yr undeb credyd i ni. Gall eich undeb credyd eich helpu gyda hyn.
- Os ydych yn **benodai** neu'n **gynrychiolydd cyfreithiol** sy'n gweithredu ar ran y cwsmer, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

Rhowch fanylion eich cyfrif isod.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn llenwi pob blwch yn gywir gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os rhowch y manylion anghywir am eich cyfrif i ni, efallai bydd oedi gyda'ch taliadau neu y gallwch golli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu'ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siwr am y manylion, gofynnwch i'r banc neu'r cymdeithas adeiladu.

Ym mha enw neu enwau mae'r cyfrif?
Ysgrifennwch yr enw neu'r enwau fel y maent yn ymddangos ar y llyfr siec, y paslyfr neu'r gyfriflen.

Enw llawn y banc neu gymdeithas adeiladu

Cod didoli
Rhowch bob un o'r chwe rhif, er enghraifft: 12-34-56.

Rhif y cyfrif
Mae'r mwyafrif o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau i mewn o'r chwith.

Rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rôl neu gyfeirnod. Gall y rhain gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 nod o hyd. Os ydych yn ansicr p'un a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Efallai eich bod yn cael budd-daliadau a hawliadau eraill na chânt eu talu'n syth i mewn i gyfrif. Os ydych am i ni eu talu i mewn i'r cyfrif uchod, ticiwch y blwch hwn.

Rhan 8 Gwybodaeth arall

Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym am unrhyw beth arall y credwch y byddai angen i ni ei wybod.
Os nad oes digon o le, defnyddiwch ddalen o bapur ar wahân. Sicrhewch eich bod yn nodi eich enw llawn a'ch rhif Yswiriant Gwladol (YG) ar bob dalen o bapur, a llofnodwch a dyddiwch bob dalen rydych yn ei defnyddio.

Nodwch gyfeiriad eich swyddfa bost leol.

Cod post

Rhan 9 **Datganiad**

- **Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- **Rwy'n deall** os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol, y gellir fy erlyn neu gallaf wynebu camau gweithredu eraill.
- **Rwy'n deall** bod yn rhaid i mi roi gwybod i'r swyddfa sy'n talu fy mudd-dal ar unwaith am unrhyw beth a allai effeithio ar fy hawl i gael y budd-dal hwnnw, neu swm y budd-dal hwnnw.
- **Rwy'n cytuno** y gall
  – yr Adran Gwaith a Phensiynau
  – unrhyw feddyg sy'n cynghori'r Adran
  – unrhyw sefydliad sydd â chontract gyda'r Adran ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol

  ofyn i unrhyw berson neu sefydliad y cyfeirir atynt ar y ffurflen hon am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i ymdrin â'r
  – cais hwn am fudd-dal, neu
  – unrhyw gais i edrych eto ar y cais hwn

  ac y gellir rhoi'r wybodaeth i'r meddyg neu'r sefydliad hwnnw neu i'r Adran.
- **Rwyf hefyd yn deall** y gall yr Adran ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi nawr neu y gallai ei chael yn y dyfodol er mwyn penderfynu p'un a oes gennyf hawl i gael
  – y budd-dal rwyf yn gwneud cais amdano
  – unrhyw fudd-dal arall neu hawl arall rwyf yn gwneud cais amdano
  – unrhyw fudd-dal neu hawl arall y gallaf wneud cais amdano yn y dyfodol.

Dyma fy nghais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol.

Llofnod

Dyddiad / /

Rhan 10 **Beth i'w wneud nawr**

Sicrhewch eich bod wedi

- ateb bob cwestiwn sy'n berthnasol i chi
- llofnodi'r ffurflen hon
- cynnwys eich adroddiad meddygol, os oes un gennych eisoes.
  Peidiwch â gofyn am adroddiad meddygol newydd yn arbennig ar gyfer y cais hwn.

Cofiwch

Anfonwch eich ffurflen gais i'ch swyddfa budd-dal anabledd rhanbarthol cyn gynted â phosibl. Os byddwch yn oedi, gallech golli arian. Gallwch ddod o hyd i'r rhestr o swyddfeydd yn y **BP100PDW Notes** a anfonwyd atoch gyda'r ffurflen hon.

Rhan 11 **Beth fydd yn digwydd nesaf**

- Gellir talu'r budd-dal y gallwch ei gael o ganlyniad i'r cais hwn yn gynt os byddwch yn ateb pob cwestiwn ar y ffurflen hon sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un.

  Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni ond efallai y bydd oedi wrth dalu'r budd-dal y gallwch ei gael oherwydd y cais hwn.
- Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud ein bod wedi derbyn eich cais.
- Bydd swyddog gwneud penderfyniadau yn edrych ar eich hawliad.
  Swyddogion gwneud penderfyniadau yw'r bobl sy'n penderfynu a yw'r gyfraith yn dweud bod gennych hawl i gael budd-dal ai peidio. Y maent hefyd yn penderfynu faint o fudd-dal y mae'r gyfraith yn ei ddweud y mae gennych hawl iddo.
- Er mwyn helpu'r swyddog penderfyniadau i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch cais, efallai y bydd angen mwy o wybodaeth arnom. Efallai y bydd angen i ni ofyn i bobl ynglŷn â'ch cais. Er enghraifft, efallai y byddwn yn ysgrifennu at unrhyw gyflogwr, meddyg neu ysbyty yr ydych wedi dweud wrthym amdanynt yn y ffurflen hon.
- Os bydd y swyddog gwneud penderfyniadau yn penderfynu eich bod wedi gweithio mewn swydd sy'n debygol o fod wedi achosi eich afiechyd, efallai y byddwn yn gofyn i chi gael archwiliad meddygol. Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych ble a phryd i gael yr archwiliad. Os nad ydych yn ddigon iach i deithio neu os ydych yn yr ysbyty, byddwn yn gofyn i'r meddyg ddod atoch chi.
- Os gallwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud
  – faint o arian y gallwch ei gael
  – mwy wrthych am y budd-dal.
- Os na allwch gael Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud y rheswm wrthych a'r hyn y gallwch ei wneud os ydych yn anghytuno.

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer byddardod galwedigaethol

Os ydych yn gwneud cais am Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer byddardod galwedigaethol (Afiechyd Penodol A10) llenwch i mewn y ffurflen hon a'i hanfon gyda ffurflen gais **BI100PDW** wedi ei chwblhau i'ch swyddfa budd-dal anabledd rhanbarthol. Gallwch ddod o hyd i'r rhestr o swyddfeydd yn y **BP100PDW Notes** a anfonwyd atoch gyda'r ffurflen hon.

Cyfenw neu enw teuluol Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Pob enw arall – yn llawn

Rhif Yswiriant Gwladol (YG) Llythrennau | Rhifau | Llythyren

Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r offer neu'r peiriannau hyn neu ydych chi wedi gweithio'n agos i rywun a oedd yn eu defnyddio?	**Defnyddiwyd**	**Ni ddefnyddiwyd** ond gweithiais yn agos i rywun a oedd yn ei ddefnyddio. Nodwch y pellter	**Nifer o oriau bob dydd**	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
Offer malu pweredig, ond nid wedi eu pweru â llaw a ddefnyddir ar fetel heblaw metel dalennog neu fetel plat		troedfedd	oriau	
Cylchlifiau, llifiau crwn neu ddisgiau torri ar gyfer torri metel yn y diwydiannau bwrw metel neu boethofanu		troedfedd	oriau	
Llifiau crwn ar gyfer torri cynnyrch wrth gynhyrchu dur		troedfedd	oriau	
Llosgwyr neu ffaglau ar gyfer torri neu drin cynnyrch yn seiliedig ar ddur		troedfedd	oriau	
Offer ergydiol niwmatig				
• ar fetel		troedfedd	oriau	
• ar gyfer drilio'r graig mewn chwareli neu dan ddaear		troedfedd	oriau	
• i gloddio am lo neu i suddo siafftau neu ar gyfer twnelu mewn gwaith peirianneg sifil		troedfedd	oriau	
• ar garreg mewn gwaith chwarel		troedfedd	oriau	
Peiriannau sy'n torri, llunio neu'n glanhau hoelion metel		troedfedd	oriau	

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer byddardod galwedigaethol parhad

Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r offer neu'r peiriannau hyn neu ydych chi wedi gweithio'n agos i rywun a oedd yn eu defnyddio?	**Defnyddiwyd**	**Ni ddefnyddiwyd** ond gweithiais yn agos i rywun a oedd yn ei ddefnyddio. Nodwch y pellter		**Nifer o oriau bob dydd**	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
Chwistrellwyr plasma i chwistrellu metel tawdd	☐	☐	troedfedd	oriau	
Offer siotsgwrio i gludo treulyddion yn yr aer i lanhau gwrthrychau	☐	☐	troedfedd	oriau	
Drylliau yn rhinwedd fy swydd fel swyddog hyfforddi drylliau'r heddlu	☐	☐	troedfedd	oriau	
Blychau mowldio metel dirgrynol yn y diwydiant cynnyrch concrit	☐	☐	troedfedd	oriau	
Llifiau crwn i dorri blociau concrit gwaith maen	☐	☐	troedfedd	oriau	
Peiriannau mowldio awtomatig, chwythfowldio awtomatig neu beiriannau gwasgu a ffurfio gwydr awtomatig a ddefnyddir wrth weithgynhyrchu cynwysyddion gwydr neu geunwyddau	☐	☐	troedfedd	oriau	
Peiriannau nyddu yn defnyddio aer cywasgedig i gynhyrchu gwlân gwydr neu wlân mwynol	☐	☐	troedfedd	oriau	
Ffwrneisi cryfhau gwydr parhaus	☐	☐	troedfedd	oriau	

A fuoch yn gweithio mewn cynhyrchu tecstilau mewn ystafelloedd neu gytiau lle roedd peiriannau yn	**Wedi gweithio yn y broses**	**Heb weithio yn y broses** ond gweithiais yn agos i rywun a oedd yn ei ddefnyddio. Nodwch y pellter		**Nifer o oriau bob dydd**	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
• gweu ffibrau synthetig neu naturiol, yn cynnwys rhai mwynol	☐	☐	troedfedd	oriau	
• cordeddu ffug ffibrau ar gyflymder uchel?	☐	☐	troedfedd	oriau	

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer byddardod galwedigaethol parhad

Ydych chi erioed wedi defnyddio neu wedi gweithio'n agos gyda pheirianwaith (heblaw am beirianwaith cywasgu pŵer) sy'n ymwneud â gofannu (yn cynnwys stampiad cwymp) o fetel drwy gyfrwng	**Defnyddiwyd**	**Ni ddefnyddiwyd** ond gweithiais yn agos i rywun a oedd yn ei ddefnyddio. Nodwch y pellter	**Nifer o oriau bob dydd**	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
● deiau cau neu agored	☐	☐ troedfedd	oriau	
● morthwylion cwymp?	☐	☐ troedfedd	oriau	

Ydych chi erioed wedi defnyddio unrhyw un o'r offer neu'r peiriannau hyn neu ydych chi wedi gweithio'n agos i rywun a oedd yn defnyddio'r peiriannau hyn ar bren neu ddeunydd a gwneir yn rhannol o bren?	**Defnyddiwyd**	**Ni ddefnyddiwyd** ond gweithiais yn agos i rywun a oedd yn ei ddefnyddio. Nodwch y pellter	**Nifer o oriau bob dydd**	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
● peiriannau mowldio aml-dorrwr	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau plaenio	☐	☐ troedfedd	oriau	
● turnau awtomatig neu rannol awtomatig	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau croes-dorri lluosog	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau llunio awtomatig	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau tyno deuben	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau mowldio echelydd fertigol, yn cynnwys peiriannau cafnu cyflymder uchel	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau bandio ymylon	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau cylchlifio gyda llafn 75mm o led neu fwy	☐	☐ troedfedd	oriau	
● peiriannau cylchlifio y symudir y llafn tuag at y deunydd a dorrir wrth ei weithredu	☐	☐ troedfedd	oriau	
● llif gadwyn	☐	☐ troedfedd	oriau	

Ydych chi erioed wedi defnyddio, neu wedi gweithio yn agos at, ffrydiau gwasgedd uchel o ddŵr, neu gymysgedd o ddŵr a deunydd sgrafellog? Mae gwasgedd uchel yn golygu mwy na 680 bar.	**Defnyddiwyd**	**Ni ddefnyddiwyd** ond gweithiais yn agos i rywun a oedd yn ei ddefnyddio. Nodwch y pellter	**Nifer o oriau bob dydd**	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
	☐	☐ troedfedd	oriau	

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer byddardod galwedigaethol parhad

Ydych chi erioed wedi gweithio yn un o'r prosesau hyn, neu wedi gweithio'n agos i rywun arall a oedd yn gweithio yn unrhyw un o'r prosesau hyn?	**Wedi gweithio yn y broses**	**Heb weithio yn y broses** ond gweithiais yn agos i rywun a oedd yn ei ddefnyddio. Nodwch y pellter	**Nifer o oriau bob dydd**	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
Gaingo aer arc	☐	☐ troedfedd	oriau	
Llosgi cerrig mewn chwareli drwy brosesau sianeli ffrydiau	☐	☐ troedfedd	oriau	
Glanhau bobinau yn fecanyddol	☐	☐ troedfedd	oriau	
Ydych chi erioed wedi gweithio ar dyrbinau nwy a ddefnyddir ar gyfer				
• phrofi perfformiad ar wely prawf	☐	☐ troedfedd	oriau	
• profion gosod peiriannau newydd mewn awyren	☐	☐ troedfedd	oriau	
• profion derbyn ar awyrennau ymladd adenydd sefydlog y Lluoedd Arfog	☐	☐ troedfedd	oriau	

			Nifer o oriau bob dydd	**Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddo ar y pryd**
Ydych chi wedi gweithio mewn ardal banciau trosglwyddo sgid mewn melin ddur?	**Na** ☐	**Ydw** ☐	oriau	
Ydych chi wedi gweithio mewn ardal gridiau cnocio allan ac ysgwyd allan mewn ffowndrïau?	**Na** ☐	**Ydw** ☐	oriau	
Ydych chi erioed wedi gweithio yn ystafell beiriannau ar long?	**Na** ☐	**Ydw** ☐	oriau	

Datganiad

- **Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- **Rwy'n deall** os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol, y gellir fy erlyn neu gallaf wynebu camau gweithredu eraill.

Llofnod

Dyddiad / /

- **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer asthma galwedigaethol neu rhinitis alergaidd

Os ydych yn gwneud cais am Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer
- rhinitis alergaidd (Afiechyd Penodol D4), **neu**
- asthma galwedigaethol (Afiechyd Penodol D7)

llenwch y ffurflen hon a'i hanfon gyda ffurflen gais **BI100PDW** wedi ei chwblhau i'ch swyddfa budd-dal anabledd rhanbarthol.
Gallwch ddod o hyd i'r rhestr o swyddfeydd yn y **BP100PDW Notes** a anfonwyd atoch gyda'r ffurflen hon.

Cyfenw neu enw teuluol Mr/Mrs/Miss/Ms/Dr/Parch

Pob enw arall – yn llawn

Rhif Yswiriant Gwladol (YG) Llythrennau Rhifau Llythyren

Yn unrhyw un o'r swyddi y dywedoch wrthym amdanynt, a gawsoch eich amlygu ar unrhyw adeg i unrhyw un o'r pethau a restrir ar y dudalen hon neu ar dudalennau 2 a 3?

Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddynt ar y pryd

a isoseianadau Na ☐ Do ☐

b halwynau platinwm Na ☐ Do ☐

c mygdarth neu lwch yn deillio o weithgynhyrchu, cludiant neu ddefnydd o gyfryngau caledu (yn cynnwys cyfryngau caledu epocsi-resin) yn seiliedig ar anhydrid ffthalig, anhydrid tetracloroffthalig, anhydrid trimelitig neu triethylenetramin Na ☐ Do ☐

d mygdarth yn deillio o ddefnyddio rosin fel fflwcs sodro Na ☐ Do ☐

e ensymau proteolytig Na ☐ Do ☐

f anifeiliaid yn cynnwys pryfed ac arthropodau eraill a ddefnyddir at ddibenion ymchwil, addysg neu mewn labordai.
Noder - mae hyn yn wahanol i o ar dudalen 2. Na ☐ Do ☐

● **Cofiwch**, os oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon, neu unrhyw ran ohoni, ffoniwch **0800 88 22 00**.

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer asthma galwedigaethol neu rhinitis alergaidd

					Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddynt ar y pryd
g	**llwch yn deillio o hau, amaethu, cynaeafu, sychu, trafod, melino, cludo neu storio haidd, ceirch, rhyg, gwenith neu india corn. Llwch a achosir gan drafod, melino, cludo neu storio blawd a wneir o haidd, ceirch, rhyg, gwenith neu india corn**	**Na**	☐	**Do**	☐
h	**gwrthfiotigau**	**Na**	☐	**Do**	☐
i	**cimetidine**	**Na**	☐	**Do**	☐
j	**llwch pren**	**Na**	☐	**Do**	☐
k	**ispaghula**	**Na**	☐	**Do**	☐
l	**llwch ffa castor**	**Na**	☐	**Do**	☐
m	**ipecaciwana**	**Na**	☐	**Do**	☐
n	**asodicarbonamid**	**Na**	☐	**Do**	☐
o	**anifeiliaid yn cynnwys pryfed ac arthropodau eraill neu eu ffurfiau larfaol, a ddefnyddir at ddibenion difa pla neu dyfu ffrwythau. Ffurfiau larfaol anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion ymchwil, addysg neu mewn labordai. Noder – mae hyn yn wahanol i f ar dudalen 1.**	**Na**	☐	**Do**	☐
p	**glutaraldehyde**	**Na**	☐	**Do**	☐
q	**halwynau persylffad neu henna**	**Na**	☐	**Do**	☐
r	**cramenogion neu bysgod neu gynnyrch sy'n deillio o gramenogion neu bysgod yn y diwydiant prosesu bwyd**	**Na**	☐	**Do**	☐

Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer asthma galwedigaethol neu rhinitis alergaidd

			Y cyflogwr roeddech yn gweithio iddynt ar y pryd
s lliwiau adweitheddol	**Na** ☐	**Do** ☐	
t ffeuen soia	**Na** ☐	**Do** ☐	
u llwch te	**Na** ☐	**Do** ☐	
v llwch ffa coffi gwyrdd	**Na** ☐	**Do** ☐	
w anweddau o weldio dur gloyw	**Na** ☐	**Do** ☐	
y cynnyrch a wnaed gan latecs rwber naturiol	**Na** ☐	**Do** ☐	

Ydych chi'n credu yr achoswyd eich asthma gan unrhyw sylwedd arall y cawsoch eich amlygu iddo yn y gwaith?

Na ☐

Ydw ☐ Dywedwch wrthym am hyn.

Beth oedd y sylwedd?
Byddwch mor fanwl â phosibl. Ni fydd termau cyffredinol fel mwg, mygdarth neu lwch yn ddigon da.

Pa gyflogwr neu gyflogwyr oeddech yn gweithio iddynt pan gawsoch eich amlygu i'r sylwedd?
Er enghraifft, cyflogwr 3.

Datganiad

- **Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- **Rwy'n deall** os byddaf yn rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn yn fwriadol, y gellir fy erlyn neu gallaf wynebu camau gweithredu eraill.

Llofnod

Dyddiad / /